Pentir Community Council

## Cyngor Cymuned Pentir

**Cynhelir cyfarfod Blynyddol o'r Cyngor Nos Fawrth 21ain o Fai 2024**

**yng Ngaholfan Penrhos am 7pm.**

## Cyfarfod Blynyddol

## Agenda

Gweddi a gair o groeso

Ymddiheuriadau

1. Derbyn Cofnodion Cyfarfod Blynyddol gynhalwyd 12/05/23 / Receive Minutes of last AGM
2. Derbyn Mantolen Ariannol am y flwyddyn / Receive Financial report 2023/2024
3. Adroddiad y Cadeirydd Chairpersons' Report
4. Adroddiad Blynyddol/ Annual Report
5. Cadarnhau/Ethol Swyddogion: Election of Officers
   4.1 Cadeirydd /Chairperson

   4.2 Is Gadeirydd / Vice Chair

   4.3 Ethol Cynrychiolwyr ar yr Is Bwyllgorau /Election of members to Sub Committees
6. Adolygu Polisiau / Review and re-adopt Policies

**Dilynir yn syth hefo cyfarfod o'r Cyngor.**

Pentir Community Council

## COFNODION Y CYFARFOD BLYNYDDOL A GYNHALIWYD ar yr 11/05/2023

**Presennol:**
Y Cyng. M Lynch, L. A. James, D. Jones-Morris, C W Owen, A Joyce, B Jones, M Baines, a J Pierce
Elwyn Jones (Clerc)

**Ymddiheuriadau**:
Y Cyng, J. Lewis, I Ellis, D W. Jones, a J Griffiths

Ar ddechrau blwyddyn newydd i'r Cyngor croesawyd pawb gan y Cadeirydd sydd rwan yn cychwyn ar ei ail flwyddyn fel Cadierydd a thraddododd Weddi cyn symud ymlaen i'r Agenda

**1. Cofnodion Cyfarfod Blynyddol 2022 a materion yn codi.**
Ar gynnig Cyng M Baines gafodd ei eilio gan Cyng B. Jones derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir.

**2. Cyfrifon ac Adroddiad Ariannol 2022 - 23**
**Ar gynnig Cyng L A James gafodd ei eilio gan Cyng J Pierce derbyniwyd y cyfrifon am y flwyddyn 2022 - 23 ynghyd a'r adroddiad ariannol fel rhai cywir a chymedwywyd i'r Cadeirydd eu arwyddo. 'Roedd y dogfennau wedi eu anfon yn electronig at bob aelod a byddant bellach yn cael eu anfon at yr Archwilwyr Mewnnol ag Allannol**

3. **Adroddiad Cadeirydd y Cyngor**
Aeth y Cadeirydd a'r pwyllgor drwy ei adroddiad ysgrifennedig oedd wedi ei dosbarthui i bawb ag yn amlinnellu ein gweithgaredd dros y flwyddyn a fu a'n cynlluniau i'r dyfodol cyn symud ymlaen i ddiolch i pawb am ei cyfranogiad a'i cefnogaeth iddi dros y flwyddyn. Diolchodd i'r Clerc am ei gydwithrediad yn ystod blwyddyn oedd wedi bod yn un anodd yn bersonnol iddo

**4. Ethol Swyddogion**
4.1 Yn unol a'r arfer o gael Cadeirydd am 2 flynedd etholwyd Cyng M Lynch am y flwyddyn 2023-24 yn Gadeirydd.
4.2 Cafodd enw Cyng D Jones-Morris ei roi ymlaen a'i eilio yn Is-gadeirydd am 2023-24 a derbynniodd y swydd
4.3 – Aelodaeth o'r Is-Bwyllgorau
Aelodau presennol yr Is-bwyllgor Cyllid yw Cyng L A James (Cadeirydd) Cyng B. Jones Cyng D W Jones Cyng D Jones-Morris Cyng J Pierce, Cyng I Ellis a'r Cyng J Lewis ag ail-benodwyd pob un ohonynt
4.4 Aelodau Panel penodi yw'r Cadeirydd – Is Gadeirydd a Chadeirydd yr Is Bwyllgor CyllidCytunwyd i sefydlu Is-Bwyllgor i sefydlu Cynllun busnes dros gyfnod o rhyw dair blynedd gan roi hwnnw ar agenda Mis Mehefin

**5**. Adolygu Rheoliadau/Polisiau - oedd wedi eu dosbarthu i bawb eu adolygu 06-05-2023
Yn dilyn eu adolygu derbynwyd a mabwysiadwyd y polisiau canlynnol ag arwyddwyd gan y Cad'ydd

a) Rheoliadau Sefydlog
b) Cod Ymddygiad
c) Rheoliadau Ariannol
ch) Polisi Iaith a diwylliant
d) Polisi Gawrchod Data Cyhoedd
dd) Polisi Gwarchod Data Staff
e) Cofrestr Risg
f) Polisi Amgylcheddol
ff) Polisi Cynfrynga Cymdeithasol

Nodwyd yr angen i gael Polisi Iechyd a Diogelwch yn ei le mor fuan a phosib

Daeth y Cyfarfod Blynddol i ben am 7.30